

Addysg heb Dduw

*“Fy nod... iddynt gael holl gyfoeth y sicrwydd a ddaw yn sgil dealltwriaeth.”
(adn. 2)*

Beth am ddarlflen Colosiaid 2:1–15 ac yna myfyrio

Mae'r wybodaeth y mae'r apostol Pedr yn siarad amdani yn adnod 5 yn wybodaeth wahanol i'r hyn a ddaw trwy astudiaeth o fewn system addysgol sy'n cael ei dyfeisio gan y byd. Daw'r wybodaeth yma oddi wrth yr Arglwydd trwy ei Air. Nid oes dim o'i le mewn sicrhau addysg secwlar dda, ond mae angen gwahaniaethu rhwng gwybodaeth secwlar a gwybodaeth ysbrydol. Fe all dyn feddu ar gymwysterau addysgiadol uchel, tra ei fod yn gwbl anwybodus pan ddaw i faterion tragwyddol bywyd. Yn ôl Lloyd George, mae addysg heb Dduw yn gwneud cythreuliaid clyfar. Heddiw, mae yna gythreuliaid clyfar yn dod allan o brifysgolion a cholegau ymhobman.

Mae'r rhai sydd yn addysgu yn cytuno fod yna dri dull o wybod – gwybodaeth gynhenid, gwybodaeth resymol ac empiriaeth. Mae gwybodaeth gynhenid yn rhywbeth sydd yn peri ein bod yn gwybod i sicrwydd ynom ein hunain fod rhywbeth yn wir. Ambell waith, yr ydym yn 'gwybod' fod ffordd o wneud rhywbeth yn iawn er nad oes gennym unrhyw resymau gwrthrychol dros feddwl hynny. Dyna yw gwybodaeth gynhenid. Mae gwybodaeth resymol yn caniatáu inni fod â rhesymau da pam y dylem wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud. Yma y mae rheswm a rhesymeg yn cyd-fyw. Mae empiriaeth, sydd yn cynnwys llawer o arbrofi, yn caniatáu inni wybod pethau trwy brawf camgymeriad, ac yn y blaen.

Er hynny, mae gan Gristnogion ffordd arall o wybod – datguddiad. Heb ddatguddiad (Duw yn dangos ei hunan trwy y Gair bywiol 'Iesu' a'r Gair ysgrifenedig), ni fyddai'n bosibl inni ddod yn arbenigwyr yn y gwaith o fyw ein bywyd fel Cristnogion. Mae sôn am un myfyriwr prifysgol yn rhwygo ei dystysgrif gradd a'i danfon yn ôl i'r brifysgol gan ddweud: “Fe addysgoch chi fi sut i wneud bywoliaeth ond nid sut i fyw.” Dim ond y Beibl all ein dysgu i fyw yn effeithiol.

Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

1 Cor. 2:1–16;

Eff. 1:16–23; 3:1–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae profi datguddiad?

2. Cymherwch wybodaeth naturiol a gwybodaeth ysbrydol?

Gweddi

O Dad, rwy'n ddiolchgar i ti am y gwirioneddau sydd yn gynwysedig yn nhudalennau dy Air, y Beibl. Mae'n goleuo fy meddwl â'th wirionedd di. Caniatâ i mi fyw yn ei oleuni. Yn enw Iesu. Amen.